DWY O

GANEUAU

NEWYDDION

Y gyntaf Hanes mab i wr bonheddig o Lancaſhire aeth i Drafaelio ag a gymerwyd i garchar, o achos ei Grefydd yngwlad y Twrks. a merch y brenhin hwnnw ai ffanſiodd ef, gan ddwyn yr Argoriade, ai ollwng ef yn rhydd, gan wneuthur ammod a'u gilydd y doent drofodd i Loegr ymhen y 7 mlynedd, gan bwyntio Priodas y cyfamſer, ond y mab a briododd un arall; ac ar ddiwrnod y neithior daeth merch y brenhin at ei haddewid, a bu ſyndod mawr ar y mab, fe wrthododd ei wraig briodol, ac a briododd ferch brenhin y Twrc.

Yr ail, Cynghorion Duwiol.

Trefriw Argraphwyd.

Cenwch ar New Princes Royal, neu feſur Cerdd Suſan a Wm.

GWYR a gwragedd dowch ynghyd,
Hyna Iſienga-brafia o bryd;
Clywch hanes mâb bonheddig llon,
Aeth i deithio o'r wlad hon,
I ffordd i wledydd oedd di-grêd,
Gadawai ei Wlâd i fyn'd ar lêd.

2

I wlad ffez *Morocco* 'r aeth,
Bu arno yno gyfluwr caeth;
Wrth rodio 'r wlad nid rhad na rhwydd,
Cymerai 'r *Twrciaid* e'n eu ſwydd,
Rhoddaſant ef mewn carchar crŷ,
Mynegaf i chwi fel y bu.

3

Wylo 'r dagre i lawr yn llyn,
Yn y Carchar ſomgar ſyn,
Dymunai fod yn ei wlâd yn ol,
Lle bod ymhlith rhai mor ddi-rol,
I lawr i'r ſeler ddu cadd fyn'd,
Lle nid oedd poſibl gweled ffrind.

4

Y mab bonddigedd llariedd llon,
Hwn oedd heb gudd yn brudd i fron,

Mab oedd heb braw yn lan o bryd,
Carcharwr oedd ef yno o hyd,
O'r Carcharorion daeth review,
Fo oedd howddgara ar lana o liw.

5

Fe ddaeth un yno 'n llon i'r llu,
Sef merch y Brenhin atto fu,
Gan wel'd mor lân o bryd a gwedd,
Ffanfiodd hon y mâb mewn hêdd,
Yn ei chalon yn ddi-gudd,
Ag eifiau cael y mâb yn rhydd.

6

Yn y *dungeon* yn gla 'roedd ê dan glô,
Y ferch a ofynnai iddo fo,
Oedd ganddo fodd i'w brynnu 'n rhŷdd,
Ar dagre 'n rhedeg lawr ei grudd,
Dywedai ynte wrth y fun,
Fod ganddo 'ftât yn ei wlâd ei hun.

7

Bodlon wyf i roi fy 'ftât,
Os caf I fyn'd i dir fy ngwlad,
I'm calyn i nîd oes yn wir,
Nag aur, nag arian, bwyd, na bir,
Na dim arall yn wir nid oes,
Ofni 'rwyf mai byr yw f' oes.

8

Y ferch rinweddol yno ddoe,
A bara a diod iddo a roe,
A mentro ddarfu hon yn hŷ,
Agoryd cloie 'r Carchar crŷ,

A hi a ollyngai y mŵb yn rhydd,
Ai gyrchu heb braw or carchar prudd,

9

Yno d'wedai 'r ladi braf,
Yn briod cym'raf chwi os câf,
Chwi eiff yn glên i dîr eich gwlad,
Na anghofiwch mono fi drwy wâd,
Ymhen ſaith mlynedd gweddedd gwiw,
Byddaf finne i chwi yn driw,

10

Gwneuhur ammod wnaeth y ddau,
A'r ladi glws yn ledio 'n glau,
Pan ddae'r ſaith mlynedd maith i ben,
Y gwnaent brodi i'll dau heb ſen,
Dywedai 'r ferch oedd lon ei gwedd,
Am gofio 'r amod hynod hedd.

11

Hyn o amſer oedd mor hir,
Fo anghofie ei ſeren Sir,
Pan ddaeth ſaith mlynedd i'w coffhau,
Priodi un arall yn wir ſe wnai,
Cadw neithor iddo ſe,
A phawb yn llawen iawn eu lle.

12

Rhyw *ferch* îfangc yno ddaeth,
Cnoccio wrth y drŵs hi wnaeth,
Y gwas agorai iddi hi,
Fe welai 'n ffraeth ryw ladi ffri,
Hi ofynai iddo 'n hŷ,
Oedd ei feiſtr yn y tŷ.

13

Dywedai

Dywedai 'r gwâs yn ſiwr ei ſod,
Ai briod gydag ef drwy glod,
Yn cadw neithior yno 'n iawn,
Er y bore a thrwy 'r prydnhawn,
Gyda 'r miwſig y mae ſo,
Yn pryſur ddawnſio treio tro.

14

Dywedwch wrth eich meiſtr clîr,
Am ddanfon imi fara a'i fir,
A pheïdio anghofio 'r ferch y ſu,
Yn ei ollwng ef or carchar crŷ,
A fentrodd ei bywyd yn ddigon hŷ,
Yn ei gael e'n rhŷdd or dyngiwn du,

15

At ei feiſtr y gwâs ſo aeth,
Agore 'n ffri mewn geiriau ffraeth,
Mewn agwedd hy mynegai hyn,
Dechreue ei feiſtr ſyn'd yn ſynn;
Ac wrth ei briod dweudai 'n hŷ,
Y cae hi ſyned ffordd y bu.

16

Am ei chorph nid oedd e waeth,
'Roedd e'n ffri a'r feinir ffraeth,
Ar *farch* y daethoch yma'n ffol,
Yn eich *coach and ſix* cewch ſyn'd yn ôl,
Bai yn wir oedd arnaf fi,
Am dorri geiriau 'rioed a thi,

17

I ffordd yr aeth y briod ferch,
Ar ol priodi a ſoddi o'i ſerch,

Dim

Dim count am dani mwy nid oes,
Am y ferch heini yn ei hoes,
Ar hên gariad priodi wnau,
A byw yn glên efo 'r *feinir* glau.

18

Wel dyna 'r 'Stori heini hardd,
Och blaen chwi rhwydd fel cadd y bardd,
Yn rhodd na fernwch arnai 'n faith,
Ewch gynta o'm gwydd i fendio 'r gwaith,
Dim help nid oes fy mhen fy wan,
You may do better if you can,

Edward Pugh ap fyllin fardd.

Cynghorion Duwiol ar Loath to Depart

GWrando di'r Cymro fy'n llwyddo mewn llês,
Ar hyn o gynghorion di gwynion a gês
Mi traetha hwy i tithe om gene 'n ddi-gâs,
Ar hyder gwrandawiad gwir roddiad o râs.

2

Mae'r byd yn dwyllodrus anafus yn wir,
A llawer deallus a dwyllodd ô 'n glir;
Ei dull fy mynd heibio heb dario bob dŷdd,
Fel rhediad yr afon drwy foddion di fudd.

3

Os rhoisti dy amcanion er rhoddion mawrhad,
Ar gasglu mawr bywer aur gloywber mewn gwlad
Dy ddull fy gyhoeddus awyddus dy wedd,
Daw 'r ange ac ath fymud oth fywyd ith fedd.

Os wyt ti'n drachwantus mawn 'wllys yn wir,
I gadw aur melyn neu dyddyn o dîr ;
Gwybydd hyn yma na fiſia yn y fan,
Na chalyn na phywer na llawnder ir llan.

5

Ni chei di or aur melyn wag eulyn di gall,
Ond *Amdo* ac *Arch* waſtad da fwriad di fall,
Na chwaith oth dir llydan yn druan iawn dro
Ond twll ith gorph aſlan mewn graian a grô,

6

Ni chadd *Alexander* or Ddaear oer ddwys.
Ond ſiort ei gorphilyn yn gyfin dan gwys,
Er iddo dros enyd draws ennill y byd,
Yn niwedd gorchafiaeth ni chadd ond ei hyd

7

Y rwan di weli dro heini drwy hedd,
Na chelyn mo'th olud di oth fywyd i'th fedd
Am hynny na ddyro di arno yn dy oes,
Moth ferch na'th hir ymdrech hyd amſer dy lôes.

8

Pan ddelo loes ange rhyw gyſle rhy gaeth,
Ar ddydd ymadawiad fel feithiad ar faeth,
Ni nediff holl olud un munud mi wn
Mo'r Corph i derfynu rhaid tynnu or byd hwn.

9

Ag yno o flaen cryfdwr dy brynwr ddydd brawd
Fel Criſtion di fuddiol di fyddi 'n dylawd ;

Heb

Heb gaſglu mor tryſor na'r trwſiad ſy raid,
Na neb ni chei yno i bledio dy blaid.

10

Wel dyna i ti or tryſor ar trwſiad ath wna,
Yn Griſtion happuſol dedwyddol a dâ,
Gwaſnaethu Duw cyſion yn dirion yn dy oes,
Cei fywyd tragwyddol da graſol di groes

11

Y rwan clyw gyngor mewn ordor ſawn wedd,
Ith gôf dal dy ſebyd oth fywyd ith fedd,
Ath liniwr ath brynwr ath farnwr oth ſodd,
Ar hyn yn ddi. oferedd myſyria di yn rhodd.

12

Yr awr hon y criſtion dewr wiwlon da i rol,
Os clywi fi'n ſiarad mewn ffaeliad yn ffol,
Dos at rai gwybodus di amheus ymhell,
A gofyn gynghorion ſwydd union ſydd well.

Morys ap Robert or Bala

BRITISH MUSEUM 20 AU 80

DIWEDD.